Rhagair

gan y Cynghorydd Jim Jones, Cadeirydd y Grwp

Fel Cadeirydd Grwp Cynllunio Rhanbarthol Gogledd Cymru mae'n bleser o'r mwyaf gennyf gyflwyno'r ddogfen hon yn ei ffurf fabwysiedig.

Dyma'r ymgais gyntaf i sefydlu gweledigaeth gytûn, a all ddylanwadu ar waith cynllunio datblygu ar draws Gogledd Cymru gyfan. Mae'r ddogfen yn ffrwyth cydweithio dros gryn gyfnod o amser gan bob Awdurdod Cynllunio yng Ngogledd Cymru. Rydym oll yn sylweddoli pwysigrwydd cael dull cyffredin o weithredu yn achos materion sy'n croesi ffiniau mwy nag un awdurdod. Credwn y bydd y ddogfen hon yn fodd o leihau anghytundeb rhwng cymdogion wrthi inni fwrw ati i baratoi ein Cynlluniau Datblygu Unedol. Tybiwn hefyd fod creu gweledigaeth gytûn ynghylch defnydd tir yn y rhanbarth yn nod gwerthfawr ynddo'i hun. Bydd o gymorth, yn arbennig, i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o bynciau trafod Cenedlaethol ac Ewropeaidd y dydd.

Edrychaf ymlaen at ddefnyddio'r ddogfen hon i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth ddatblygu fframwaith cynllunio gofodol ar gyfer Gogledd Cymru yn y dyfodol.

Jim Jones

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Proffil o'r Ardal

3. Egwyddorion Cynllunio Rhanbarthol

4. Strategaeth

5. Yr Amgylchedd
   - Nodweddion yr Amgylchedd
   - Ffiniau Trigfannau
   - Safleoedd Datblygu
   - Yr Arfordir

6. Economi Iach
   - Diwydiant a Thwristiaeth
   - Canol Trefi

7. Cymunedau Hyfyw
   - Tai
   - Yr Iaith Gymraeg
   - Ardaloedd Gwledig

8. Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau
   - Trafnidiadeth
   - Ynni
   - Mwynau
   - Gwastraff

9. Adolygu'r Canllaw

10. Y rhai yr ymgynghorwyd â nhw

Map 1. Prif Nodweddion Amgylchedd

Map 2. Prif Safleoedd Datblygu

Atodiad 1 Rhagamcanion Poblogaeth a Nifer Teuluoedd

1. Cyflwyniad

Cefndir

1.1 Nid yw'r ddogfen "Canllaw Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio" yn cynnig arweiniad polisi diffiniedig i faterion cynllunio rhanbarthol na chyd-destun is ranbarthol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Unedol. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynghori awdurdodau cynllunio lleol i gydweithio er mwyn sefydlu amcanion a pholisïau cynllunio strategol ar gyfer eu hardaloedd, a sefydlu gweithdrefnau gwirfoddol priodol i gael y maen i'r wal. Defnyddir y flaengaredd hon nawr i baratoi ar gyfer Cynllun Gofodol Cymru gan LlCC.

Statws

1.2 Sefydlwyd Grwp Cynllunio Rhanbarthol Gogledd Cymru, ag arno aelodau etholedig o Gynghorau Sir Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gyflawni'r amcanion hyn. Fe'i cynghorir gan benaethiaid gwasanaethau cynllunio yr Awdurdodau hynny.

1.3 Mabwysiadwyd y ddogfen hon gan yr awdurdodau lleol perthnasol fel Canllaw Cynllunio Atodol (gweler y dyddiadau ar y diwedd). Disgwylir i awdurdodau dalu sylw i'r Canllaw wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Unedol (CDU). Gall fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Anogir Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi sylw i gynnwys y ddogfen wrth benderfynu apeliadau cynllunio a gwneud ymholiadau ynghylch Cynlluniau Datblygu Unedol.

1.4 Mae'r Canllaw Cynllunio Rhanbarthol hwn yn ymwneud â'r cyfnod 1996 - 2001. Caiff y ddogfen ei hadolygu a'i diweddaru mewn cylch treigl pum mlynedd.

Pwrpas

1.5 Mae'r ddogfen yn anelu i ddarparu:-

- cyd-destun strategol i'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu unedol yng Ngogledd Cymru
- cyd-destun i ddatrys materion cynllunio sy'n croesi ffiniau awdurdodau
- fframwaith defnydd tir i ddenu mewnfuddsoddiad, i ddosbarthu cronfeydd strwythurol diwygiedig yr Undeb Ewropeaidd ac i warchod a gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol
- sail ar gyfer deialog adeiladol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch cynllunio Gogledd Cymru yn y dyfodol.

Gwaith Paratoi

Y paragraffau mewn teip **bold** yw elfennau allweddol y Canllaw. Atgynhyrchir rhannau o bolisïau cenedlaethol oherwydd eu pwysigrwydd i waith cynllunio yng Ngogledd Cymru.

1.6 Ymgynghorwyd ynghylch drafft cyntaf y ddogfen yng Ngwanwyn 1999. O ganlyniad i'r ymgynghori, diwygiwyd y cynnwys mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. Gwnaed rhagor o waith yn ystod 2000 ar y canllawiau mwynau a gwastraff ac ar y rhagamcanion poblogaeth a nifer teuluoedd. Paratowyd Adroddiad Ymgynghori ar wahân sy'n cynnwys crynodeb o'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, a'r ymateb iddynt.

Rhagor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol, neu â Malcolm Phillips ar 01978 292510. Cyhoeddir y ddogfen hon yn fuan ar safle gwe Cyngor Wrecsam (www.wrexham.gov.uk)

Dyddiadau Mabwysiadu

Sir Ddinbych – Gorffennaf 2001
P. C. Eryri – Gorffennaf 2001
Wrecsam – Gorffennaf 2001
Ynys Môn – Medi 2001
Sir y Fflint – Hydref 2001
Conwy – Tachwedd 2001
Gwynedd – Gorffennaf 2002

2. Proffil o'r Ardal

2.1 Mae Gogledd Cymru yn ardal gyfoethog ei diwylliant, treftadaeth a thirwedd. Yn ddaearyddol, mae'n bennaf o natur wledig. Mae hefyd yn ardal amrywiol iawn. Yn y rhannau gorllewinol - y rhannau mwyaf gwledig ac anghysbell lle mae'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn gryf - wynebwyd yr anawsterau economaidd a gysylltir â lleoliad ymylol. Yn y dwyrain - sy'n fwy trefol a hygyrch o safbwynt isadeiladwaith - gwelwyd twf cryf a mewnfudiad arwyddocaol.

2.2 Mae Gogledd Cymru yn cynnwys siroedd Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn, ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Arwynebedd yr ardal yw 6172 cilomedr sgwâr. (29% o arwynebedd Cymru). Mae'r boblogaeth o 656,000 (22% o boblogaeth Cymru) wedi ei lleoli yn bennaf yn rhannau mwy trefol a diwydiannol yn y Gogledd Ddwyrain ac ar arfordir Gogledd Cymru. Mae 333 person am bob cilomedr sgwâr yn byw yn Sir y Fflint, ond dim ond 46 am bob cilomedr sgwâr a geir yng Ngwynedd. Yn gyffredinol, mae canran y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu'n raddol wrth fynd o'r dwyrain i'r gorllewin. Y ffigurau yw 13-14% yn siroedd Fflint a Wrecsam, 62% ym Môn a 72% yng Ngwynedd. Mae Gogledd Cymru yn lle poblogaidd fel man ymddeol, gyda 27% o boblogaeth Conwy, a 24% o boblogaeth Sir Ddinbych dros oedran ymddeol. Y canran cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan yw 20%. Ceir oddeutu 287,000 o anheddau yng Ngogledd Cymru. Amrywia canran y tai cyngor o 9% yng Nghonwy i 28% yn Wrecsam.

Cynnyrch economi Gogledd Cymru yw oddeutu £5 biliwn y flwyddyn, gydag oddeutu 220,000 o'r boblogaeth mewn gwaith cyflogedig, a thua 42,000 yn hunan gyflogedig. Newidiodd strwythur economi'r ardal yn ddirfawr dros y 20-30 mlynedd diwethaf. Canolir y diwydiant cynhyrchu yn bennaf yn siroedd Fflint a Wrecsam, lle ceir 72% o holl swyddi cynhyrchu Gogledd Cymru. Yn y sector hwnnw ceir mwy o amrwyiaeth swyddi nag a fu. Mae gan yr ardal gysylltiadau clos ag economi Gogledd Orllewin Lloegr, gyda llawer yn teithio i'w gwaith o Gymru i Loegr, ac i'r gwrthwyneb. Yn y gorllewin, swyddi gwasanaethu a geir gan mwyaf, yn arbennig o fewn y diwydiant twristiaeth, y mae ei natur i raddau helaeth iawn yn dymhorol. Mae diweithdra'n is yn y dwyrain: 3.5% yn Sir y Fflint a Wrecsam, ond yn codi i 5.4% yng Ngwynedd a 7.8% ar Ynys Môn (ffigyrau Medi 1999).

2.4 Dyfarnwyd statws Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd i ganol a gorllewin y rhanbarth, a thrwy hynny eu gwneud yn agored i dderbyn y raddfa uchaf sydd ar gael o gymorth o gronfeydd cymorth strwythurol. Rhydd gyfle dros y saith mlynedd nesaf i

greu sylfaen ar gyfer datblygiad economaidd cynaladwy.

2.5 Mae Gogledd Cymru yn parhau'n un o'r prif ffynonellau agregau mwynol. Cynhyrchir 8 miliwn tunnell fetrig o gerrig caled y flwyddyn a thua 1.5 miliwn tunnell o dywod a gro. Dyma hefyd y brif ardal o fewn y Deyrnas Gyfunol ar gyfer cynhyrchu llechi naturiol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu cryn ddatblygu masnachol ar feysydd olew a nwy Bae Lerpwl. Yn ogystal â phwerdai llosgi nwy yn aber Afon Dyfrwy ceir atomfa niwclear ym Môn (Yr Wylfa) sydd â chysylltiad ag Alwminiwm Môn, y mwyndoddwr mwyaf ym Mhrydain, a cheir nifer o orsafoedd trydan dwr mawr yn Eryri a sawl fferm wynt ar Ynys Môn.

2.6 Y prif ganolfannau siopa yng Ngogledd Cymru yw Bangor, Llandudno, Rhyl, a Wrecsam, ynghyd â nifer o ganolfannau a threfi marchnad llai. Yn y dwyrain mae dylanwad dinas Caer, dafliad carreg dros y ffin, ac atyniadau rhanbarthol eraill yn drwm. Mae canolfan siopa is-ranbarthol cwr tref wedi ei chreu ym Mrychdyn, Sir y Fflint.

2.7 Ers cyfnod maith, bu'r diwydiant ymwelwyr yn allweddol i economi arfordir Gogledd Cymru, lle ceir trefi gwyliau mawr fel Y Rhyl a Llandudno. Mae twristiaeth hefyd yn bwysig i ardaloedd ymaith o'r môr, yn arbennig Eryri. Dibynna oddeutu 23,000 o swyddi yng Ngogledd Cymru ar y diwydiant ymwelwyr, 67% ohonynt yn siroedd Conwy, Dinbych a Gwynedd. Fodd bynnag, mae rhai o'r swyddi hyn yn dymhorol eu natur.

Mae amaethyddiaeth a choedwigaeth yn parhau'n bwysig i economi wledig Gogledd Cymru. Glaswelltir parhaol a thir pori garw a geir yn bennaf, gyda 10% yn unig o'r arwynebedd ffarmio yn dir âr. Ymaith o'r môr, ucheldir yw llawer o Ogledd Cymru. Dosbarthwyd dros 90% o ffermdir Gwynedd yn dir Gradd 4 neu 5 ac mae dros 70% o diroedd Gwynedd, Conwy a Dinbych yn cael eu hystyried i bwrpas amaethyddol yn ardaloedd Dan Anfantais neu Dan Anfantais Difrifol, ac felly'n agored i dderbyn cymorth arbennig dan reolau'r Undeb Ewropeaidd. Dynodwyd tair rhan o Ogledd Cymru (Ynys Môn, Llyn, a Bryniau Clwyd) yn ardaloedd amgylcheddol sensitif, lle mae'r pwyslais ar annog arferion ffermio cyfeillgar i'r amgylchedd. Manteisiodd rhannau o Ogledd Cymru o gynlluniau amaeth-economaidd eraill megis Tir Cymen a Thir Gofal. Mae'r cynlluniau hyn yn cyfrannu mewn ffordd bwysig tuag at wella amgylchedd yr ardal a darparu lles economaidd i'r gymuned amaethu.

2.9 Yng Ngogledd Cymru ceir etifeddiaeth gyfoethog iawn o adeiladau a threftadaeth naturiol sy'n cyfiawnhau gwarchodaeth a mesurau gwella. Mae'r mannau hyn yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri a thair Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

(Ynys Môn, Llyn, a Bryniau Clwyd). Dynodwyd Arfordir Treftadaeth mewn tair ardal, sef Ynys Môn, rhannau helaeth o Lyn a Phen y Gogarth. Yn ogystal â'i hardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig, mae cestyll Edward 1 ym Miwmares, Harlech, Caernarfon a Chonwy wedi eu rhestru'n Safleoedd Treftadaeth y Byd. Mae'r gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yn Nghymru a gynhyrchwyd gan CADW, ICOMOS UK a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn 1998, yn nodi 18 tirwedd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol neu arbennig yn gorwedd naill yn gyfangwbl neu'n rhannol o fewn y rhanbarth. Mae gan y rhanbarth ardaloedd o bwysigrwydd cenedlaethol o safbwynt gwarchodaeth natur ynghyd â safleoedd eraill tu allan i safleoedd rholaeth statudol sy'n bwysig oherwydd eu bod yn darparu coridorau bywyd gwyllt neu gysylltiadau angenrheidiol i gynnal yr amrywiaeth bresennol o blanhigion ac anifeiliaid, a goroesiad rhywogaethau pwysig.

2.10 Prif borthladd Gogledd Cymru yw Caergybi, sy'n arbennig o brysur yn cludo pobl a nwyddau rhwng Cymru ac Iwerddon. Ystyrir bod cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd da ag Iwerddon yn hanfodol i ddyfodol economaidd ffyniannus y rhanbarth, yn arbennig Ynys Môn a Gwynedd. Mae dociau Mostyn ar aber Afon Dyfrdwy yn parhau i ddatblygu fel porthladd diwydiannol yn gwasanaethu gogledd ddwyrain Cymru. Prif ffyrdd cludiant yr ardal yw Gwibffordd yr A55, yr A5, yr A483, yr A487 a'r A470. Y brif reilffordd yw Lein Arfordir Gogledd Cymru, sy'n cysylltu'r ardal â Chaer a Llundain. Er fod meysydd awyr yn Y Fali, Ynys Môn (o eiddo'r Awyrlu), Caernarfon a Phenarlâg (yn gwasanaethu ffatri British Aerospace), nid oes meysydd awyr masnachol mawr. Mae'n hawdd cyrraedd meysydd awyr Manceinion a Lerpwl ar hyd y rhwydwaith traffyrdd.

3. Egwyddorion Cynllunio Rhanbarthol

3.1 Wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Unedol (CDU), ac wrth benderfynu ceisiadau cynllunio sy'n debygol o fod ag oblygiadau traws-ffiniol, disgwylir i awdurdodau roi sylw i'r egwyddorion a amlinellir isod. Mae'r egwyddorion yn ceisio hyrwyddo datblygiad cymdeithasol ac economaidd cynaladwy, yn cynnwys gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, tirweddau'r rhanbarth, a'r dreftadaeth adeiledig a naturiol.

Amgylchedd

3.2 Mae Gogledd Cymru yn ffodus o feddu ar amgylcheddau naturiol ac adeiledig eithriadol o hardd, yn cynnwys ei harfordir. Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol warchod a gwella'r nodweddon hyn, nid yn unig oherwydd eu gwerth cynhenid ond oherwydd eu cyfraniad at fywyd cymunedol a datblygiad economaidd.

Economi Iach

3.3. Mae'r ddogfen "Ffordd i ffyniant – agenda economiad newydd i Gymru" yn amlinellu agenda'r llywodraeth ar gyfer "trawsnewid economi Cymru yn economi rhanbarthol arloesol y mae gwerth uwch wedi'i ychwanegu ato, sef economi sy'n gallu cyflwyno cynnydd mewn ffyniant i bobl ym mhob rhan o Gymru". Mae gan bob Cynllun Datblygu Unedol swyddogaeth allweddol yn cefnogi'r Strategaeth hon a hwyluso ymdrechion i adfer ac amrywio economi'r rhanbarth. Ymestyna hyn yn llawer pellach na defnydd tir. Mae'n ymwneud hefyd â sichrau fod nodweddion eraill yr ardal - ei harddwch naturiol, ei threfi, ei threftadaeth a'i rhwydwaith cyfathrebu - oll yn cyfrannu'n allweddol at y gwaith o ddenu buddsoddiad a hyrwyddo twf cynhenid, gan wneud hynny mewn ffordd gynaladwy.

Cymunedau Hyfyw

3.4 Rhaid i Gynlluniau Datblygu Unedol hyrwyddo cymunedau cynaladwy. Mae hyn yn golygu gwarchod hunaniaeth leol. Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol sicrhau fod graddfa eu darpariaethau tai yn briodol i'w hanghenion ac yn gyson â darpariaeth gwasanaethau a'r gwaith sy'n debygol o fod ar gael. Rhaid gwarchod anghenion yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ym mhob cwr o'r rhanbarth. Dylai awdurdodau wneud darpariaeth bositif i genedlaethau'r dyfodol yn nhermau tir ar gyfer adeiladau a mannau agored cymunedol.

Gwell Defnydd o Adnoddau

3.5 Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol geisio arwain at batrwm datblygu mwy cynaladwy o ran defnydd tir a lleihau'r defnydd a wneir o adnoddau ar gyfer cludiant, ynni, mwynau a gwastraff.

Perthynas â Chymdogion

3.6 Dylai datblygiad Gogledd Cymru fod yn seiliedig ar egwyddorion cydnaws â'r rhanbarthau sy'n ffinio. Dylai adeiladu ar gyd-gryfderau er lles y naill ardal a'r llall, pryd bynnag y bo

modd.

4. Strategaeth

Ceisia'r Strategaeth adeiladu ar yr Egwyddorion Cynllunio Rhanbarthol gan ddarparu fframwaith ffisegol clir i ddatblygiad Gogledd Cymru yn y dyfodol. **Y nod sylfaenol yw datblygu asedau'r rhanbarth a gwasgaru twf economaidd a'i fanteision i bob cwr o'r Rhanbarth o fewn cyd-destun datblygiad cynaladwy.**

Datblygwyd y Strategaeth o amgylch naw amcan sylfaenol:-

Datblygu lleoliad Gogledd Cymru rhwng Iwerddon, Lloegr a gweddill Cymru drwy uwchraddio isadeiladwaith y Rhanbarth. Y gofynion allweddol yw:-

- Gwella cysylltiadau rheilffordd o fewn a thu allan i Ogledd Cymru
- Datblygu telegyfathrebu
- Datblygu porthladdoedd a meysydd awyr o fewn a thu allan i Ogledd Cymru
- Cyswllt a deialog gyda chymdogion

Cydnabod y cyfleon a grëir gan gyllid Ewropeaidd. Golyga sefydlu strategaeth eglur defnydd tir er mwyn helpu i gyfnerthu'r lefelau uwch o weithgaredd economaidd a ddisgwylir yn sgil buddsoddiad Amcan 1.

Gwarchod y diwylliant a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig unigryw drwy ddiogelu:-

- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
- Y môr, yr arfordir a chefn gwlad
- Bywyd gwyllt
- Ansawdd aer a dwr
- Adeiladau ac ardaloedd o arwyddocad hanesyddol ac archaeolegol.

Adnabod Safleoedd Mewnfuddsoddiad ar Raddfa Fawr a Chyflogaeth Ranbarthol gan gydnabod y gwahaniaethau graddfa rhwng datblygiadau yn rhannau dwyreiniol mwy trefol y Rhanbarth a'r rhannau gorllewinol mwy gwledig eu natur.

Datblygu'r prif drefi a phentrefi drwy ganolbwyntio ar:-

- Adnewyddu ac adfywio hen ardaloedd trefol
- Cryfhau swyddogaeth y trefi gwyliau glan môr, trefi marchnad gwledig a phentrefi allweddol.

Darparu tai ar raddfa ac mewn lleoliadau sy'n cefnogi cymunedau presennol a datblygiad economaidd.

Adfywio cefn gwlad drwy annog yr economi wledig i arallgyfeirio a darparu cyflogaeth a thai ar raddfa briodol i anghenion y cymunedau hynny.

Uwchraddio coridorau trafnidiaeth allweddol sy'n darparu cysylltiadau hanfodol rheilffordd, bws a chefnffordd i ardaloedd cyfagos a phrif drefi'r rhanbarth.

Defnyddio adnoddau'r Rhanbarth drwy:-

- Sicrhau cyflenwad digonol o fwynau tra'n cofio'r angen i warchod yr amgylchedd a chymunedau lleol
- Manteisio'n ofalus ar yr amrywiaeth fawr o ffynonellau ynni terfynadwy (yn cynnwys olew a nwy) ac ynni adnewyddol.

Darparu ar gyfer lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu a gwaredu gwastraff yn unol â strategaeth wastraff y Llywodraeth.

5. Yr Amgylchedd

Nodweddion Amgylcheddol

5.1 Dylai cynigion Cynlluniau Datblygu Unedol gydnabod nodweddion amgylcheddol pwysig a llunio polisïau i warchod a gwella ardaloedd mewn Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Arfordir Treftadaeth, y tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg, safleoedd cadwraeth dynodedig, ardaloedd cadwraeth adeiledig, henebion a safleoedd archaeolegol. Dangosir nodweddion amgylcheddol amlycaf Gogledd Cymru ym Map 2. Dylid gwarchod cefn gwlad er mwyn ei dirwedd.

Rheoli'r Amgylchedd

5.2 Dylid cyfeirio datblygiad ymaith oddi wrth y mannau mwyaf gwerthfawr a mwyaf sensitif. Pan fo ystyriaethau materol yn ddigon pwysig i gael blaenoriaeth dros ystyriaethau cadwraeth a bod datblygiad yn digwydd o'r herwydd, dylai'r datblygiad hwnnw anelu i fod o fudd i'r economi wledig a chynnal neu wella'r amgylchedd. Dylai polisïau geisio sicrhau fod nodweddion amgylcheddol a thirweddol lleol yn cael eu hintegreiddio a'u rheoli, yn cynnwys planhigion ac anifeiliaid lleol a'r amgylchedd hanesyddol, gan greu lles parhaol i drigolion y presennol a chenedlaethau'r dyfodol a lleihau i'r eithaf unrhyw newid a achosir.

5.3 Dylai polisïau a chynigion Cynlluniau Datblygu Unedol roi sylw, a lle bo hynny'n briodol, integreiddio Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth, Agenda Lleol 21 a Strategaethau eraill presennol ac arfaethedig. Lle bo hynny'n berthnasol, dylent hefyd gadw mewn cof gynlluniau cyffelyb awdurdodau cyfagos. Dylid edrych yn bositif ar adnoddau naturiol a'r gwaith o amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau allweddol. Dylid eu gweld fel asedau gwerthfawr yn hytrach na rhwystr i ddatblygiad, asedau i'w datblygu drwy'r broses Cynllun Datblygu Unedol, pryd bynnag y bo modd.

Ffiniau Trigfannau

5.4 Wrth bennu ffiniau trigfannau yn eu Cynlluniau Datblygu Unedol, dylai awdurdodau lleol geisio cytbwysedd rhwng y ffactorau a ganlyn: y galw am fwy o dir datblygu, yr angen i annog ail ddefnydd o safleoedd tir brown o fewn eu trigfannau a'r angen i warchod mannau sensitif ar y cyrion a'r cefn gwlad agored tu draw. Dylid asesu effeithiolrwydd y polisïau presennol ar gyfer llywio datblygiad a dylanwadu ar batrymau teithio, yn arbennig yn y mannau lle ceir pwysau trwm i ddatblygu. Dylid ystyried gwerth Atalfeydd/Lletemau Gwyrdd, lle bodolant. Os ceir nad ydynt yn effeithiol, dylid ystyried cyflwyno Lleiniau Gleision.

Safleoedd Datblygu

5.5 Dylai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd fod wedi eu lleoli mewn perthynas agos â phatrymau'r trigfannau presennol gan sicrhau fod pob datblygiad yn gwbl hygyrch ac yn lleihau i'r eithaf yr angen i deithio ymhell. Dylid gwarchod llecynnau agored er mwyn diogelu cymeriad trigfannau, gan fanteisio ar bob cyfle i ail ddefnyddio ac addasu adeiladau presennol ac ail ddatblygu ac ailgylchu tir trefol.

5.6 Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol a'r cynghorion a geir ynddynt, megis Canllawiau Atodol, anelu at safonau adeiladu uchel. Dylai gwaith adeiladu fod ar raddfa ac o natur a sicrha ei fod yn ymdoddi'n dda o fewn ei amgylchedd; rhaid iddo barchu nodweddion lleol a defnyddio adnoddau an-adnewyddol mor effeithlon â phosibl. Rhaid ymdrechu i'r eithaf i osgoi difrod i'r amgylchedd. Lle bo difrod yn anochel, bydd angen mesurau lleddfu priodol.

5.7 Wrth glustnodi safleoedd ar gyfer siopau a hamdden dylid dilyn y drefn benodol a ganlyn: dechrau drwy geisio adnabod safleoedd addas yn agos i ganol trefi; yna edrych ar safleoedd ar gyrion canol trefi, ac yn olaf, safleoedd mewn ardaloedd trefol a wasanaethir gan ddewis o ddulliau teithio. Dylid rhoi blaenoriaeth i diroedd a ddatblygwyd eisoes mewn prif ardaloedd trefol y gellir eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus.

Yr Arfordir

5.8 Ar arfordir Gogledd Cymru ceir rhai o eco-systemau pwysicaf a mwyaf bregus y Deyrnas Gyfunol - llawer ohonynt o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae'r arfordir yn ymestyn o safle SoDdGA, AGA a RAMSAR Aber Afon Dyfrdwy yn y dwyrain i Ddarpar ACA Morol Pen Llyn a'r Sarnau yn y gorllewin. Mae ansawdd ac atyniad yr arfordir o bwysigrwydd allweddol i economi diwydiant twristiaeth a hamdden y rhanbarth. Ar hyn y dibynna llawer o ganolfannau gwyliau glan môr, mawr a bach.

5.9 Mae Porthladd Caergybi a datblygiad Porthladd Mostyn yn elfennau allweddol yn fframwaith trafnidiaeth Gogledd Cymru. Gan fanteisio ar eu lleoliad arfordirol ffurfiasant gysylltiadau masnach pwysig â rhanbarthau eraill o Gymuned Ewrop a thu hwnt. Elfen arall sy'n cynnig cyfleon a her i'r rhai cyfrifol am wneud penderfyniadau yw bodolaeth gwaddodion olew, nwy a cherrig agreg o dan wely'r môr ger y glannau, ynghyd â'r chwilio am ffynonellau ynni adnewyddol megis ffermydd gwynt. Fel yn y gorffennol, bydd yr arfordir yn chwarae rhan bwysig yn economi'r ardal yn y dyfodol hefyd.

Cynllunio a Rheoli'r Arfordir

mewn modd Integredig

5.10 Yn y canllawiau sy'n ymwneud â materion arfordirol anogir awdurdodau lleol i gydweithio er mwyn gweithredu strategaeth cynllunio defnydd tir sy'n gynaladwy, integredig ac amgylcheddol sensitif ar gyfer arfordir y rhanbarth.

5.11 Dylai polisïau a chynigion Cynlluniau Datblygu Unedol anelu at wella rhagolygon economaidd ardaloedd arfordir tra'n gwarchod ac ehangu bioamrywiaeth, nodweddion naturiol ac ansawdd y tirwedd a'r amgylchedd adeiledig. Fel hyn y sylweddolir gwir werth yr arfordir i bawb sy'n byw a gweithio ynddo, ac sy'n ei fwynhau.

Cydweithredu

5.12 Nid yw integreiddio'n hawdd gan fod cynifer o wahanol asiantaethau, yn gweithredu dan amryfal awdurdodaethau, yn gyfrifol am reolaeth a'r peirianwaith rheolaethol. Cymhlethir y mater fwy fyth gan ledaeniad deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae natur dameidiog y gyfundrefn reolaethol yn llesteirio'n arwyddocaol yr ymdrechion i gael yr asiad angenrheidiol rhwng gweithgareddau yn y môr ac ar y lan mewn ardaloedd arfordir a dyfroedd morol. Rhaid cael peirianwaith effeithiol i hyrwyddo cydweithio llawer agosach rhwng pob asiantaeth, adran o'r llywodraeth, awdurdodau lleol a'r sector preifat.

5.13 Gall awdurdodau lleol wneud llawer i sicrhau gwell cydweithrediad wrth baratoi eu cynlluniau eu hunain, a hefyd â chynlluniau asiantaethau eraill. Mae'r strategaethau sydd eisoes yn bodoli, neu'n ymffurfio, yn cynnwys:-

- Cynlluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd (CLlAA) ar gyfer: Meirionnydd, Ynys Môn, Eryri/Llyn, Conwy/Clwyd, Dyfrdwy;
- Cynlluniau Rheoli'r Traethlin ar gyfer Bae Lerpwl, Ynys Enlli i Landudno, a Bae Ceredigion;
- Strategaeth Aber Afon Dyfrdwy

Ardaloedd Arfordir

Gall rhwydweithiau a grwpiau o'r fath ar hyd arfordir Gogledd Cymru fod yn fan cychwyn ar gyfer gwell dealltwriaeth a chydweithrediad.

5.14 Wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Unedol dylai awdurdodau glan môr ymgynghori'n agos â'u cymdogion ar hyd y glannau i adnabod maint a nodweddion ardaloedd arfordir o ddylanwad. Bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisïau a strategaethau mewn modd trefnus a chyson er mwyn adnabod pwysigrwydd cymharol, pwrpasau a swyddogaeth y prif ddefnyddiau a wneir o'r arfordir o fewn eu hardal. Bydd asesiad o'r fath yn rhoi eglurder i'r broses o ystyried dylanwadau economaidd,

cymdeithasol ac amgylcheddol, a chynorthwyo i adnabod lle y gall datblygiad fod yn dderbyniol neu beidio. Bydd y broses o gymorth i wneud ac amddiffyn polisïau a phenderfyniadau rheoli cynllunio.

5.15 Fel egwyddor sylfaenol, dim ond datblygiad y mae'n rhaid ei leoli ar yr arfordir y dylid ei osod yno. Dylid ystyried datblygiadau arfordir yng ngoleuni gallu'r arfordir a dyfroedd y môr i ddygymod â newid, ac unrhyw beryglon a all godi oherwydd erydu, llifogydd neu lygredd.

5.16 Continuum yw'r arfordir a rhaid sicrhau fod y polisïau a'r modd yr ymdrinir ag ardaloedd arfordir ar draws ffiniau gweinyddol yn gyson a chydnaws. Dylai awdurdodau cynllunio lleol siarad â'i gilydd yn gynnar yn y broses o baratoi neu adolygu cynlluniau a sicrhau fod y rhai sy'n gweithredu swyddogaethau eraill awdurdod lleol a ddylanwada ar yr arfordir hefyd yn rhan o'r broses ymgynghori. Bydd yr agweddau hyn yn cynnwys mynediad a hamdden, twristiaeth, atal llifogydd, glanhau traethau a chynlluniau argyfwng.

6. Economi Iach

Diwydiant

6.1 Mae Canllawiau Cynllunio (Cymru) wedi awgrymu fod gogledd ddwyrain Cymru yn debygol o barhau i fod yn ffocws datblygiad economaidd. Fodd bynnag, noda'r Canllaw fod y llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau gwell dosbarthiad swyddi a buddsoddiad, yn arbennig i'r Gymru wledig.

6.2 Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf datblygwyd oddeutu 190 hectar o dir yng Ngogledd Cymru at amcanion diwydiannol ac an-adwerthol. Tameidiog fodd bynnag fu llwyddiant yr ardal drwyddi draw, gyda diweithdra'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Ngogledd Orllewin Cymru. Nid yw gwella'r A55 hyd yma wedi dod â manteision arwyddocaol amlwg i rai rhannau o Ogledd Orllewin Cymru. Ar Lannau Dyfrwy ac yn Wrecsam y mae'r prif ganolfannau diwydiant. Yng ngweddill yr ardal y sector gwasanaeth yw'r brif ffynhonnell waith.

6.3 Ymhlith manteision economaidd y rhanbarth y mae cysylltiadau da â rhwydwaith traffyrdd Lloegr; cyfleusterau porthladd ym Mostyn a Chaergybi, yn darparu cyswllt ag Iwerddon; gwasanaeth trên "*inter-city*" o Gaergybi i Gaer, yn cysylltu â phrif drefi a dinasoedd Prydain Fawr; record economaidd dda, gweithlu hyblyg, amrediad o gyfleusterau addysg uwch ac ansawdd uchel yr amgylchedd. Mae Gogledd Orllewin Cymru, yn cynnwys Sir Ddinbych, wedi derbyn statws ardal Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd a gall prosiectau priodol ddenu cymorth grant Ewropeaidd.

Cyflenwad Tir

6.4 Gall y gyfundrefn gynllunio gynorthwyo adfywiad economaidd a threfol drwy weithredu polisïau positif a thrwy'r broses o ddyrannu tir mewn Cynlluniau Datblygu Unedol. Drwy'r dulliau hyn gellir cynorthwyo i ddatblygu economi gytbwys a gwrthsefyll y gostyngiad mewn swyddi traddodiadol.

6.5 Bydd awdurdodau lleol yn asesu maint a math y tir angenheidiol ar gyfer cyflogaeth o fewn eu hardaloedd unigol, gan gadw mewn cof ofynion yr economi gynhenid a'r angen i ddenu buddsoddiad o'r tu allan.

6.6 Rhaid rhoi sylw hefyd i'r rhyngweithio economaidd agos a fodola rhwng Gogledd Ddwyrain Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, a'r cysylltiadau sy'n datblygu ag Iwerddon. Bydd gofyn i awdurdodau Gogledd

Ddwyrain Cymru ymgynghori ag awdurdodau gororol Lloegr.

6.7 Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol nodi safleoedd ar gyfer datblygu cyflogaeth a chadw portffolio o safleoedd parod wrth law i gwrdd ag anghenion cwmnïau bach, canolig a mawr.

Safleoedd ar gyfer buddsoddiad mewnol ar raddfa fawr

6.8 Mae Canllawiau Cynllunio (Cymru) wedi nodi'r angen am safleoedd a all gefnogi buddsoddiad mewnol ar raddfa fawr. Yn Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr, er enghraifft, nodwyd y safleoedd hyn fel rhai a all gyflogi dros 3000 o bobl, gan dderbyn un neu ddau ddatblygiad mawr dros ben, ac sydd dros 50 hectar o faint. Yng Ngogledd Cymru dylai safleoedd o'r fath gwrdd â'r meini prawf a nodir ym mharagraff 6.10. Rhagwelir y bydd safleoedd o'r fath o arwyddocad ar lefel Y Deyrnas Gyfunol ac felly bydd raid i'w lleoliad fod yn addas ar gyfer mynediad rhyngwladol.

6.9 Byddir yn clustnodi'r safleoedd pwysicaf fel "canolfannau cyflogaeth rhanbarthol". Y rhain yw y safleoedd mwyaf sydd ar gael i'w datblygu gan gwmnïau mawr ac ar gyfer buddsoddi mewnol. Dylid dewis y safleoedd hyn drwy broses gydweithredol, yn cynnwys Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, Ffora Economaidd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ac Awdurdod Datblygu Cymru, fel rhan o'r gwaith o gynhyrchu Cynlluniau Datblygu Unedol.

6.10 Dylai safleoedd cyflogaeth ranbarthol feddu ar y nodweddion a ganlyn:

- **bod o faint digonol ar gyfer y pwrpas**
- **bod ar dir gweddol wastad y gellir ei ddatblygu'n economaidd**
- **gorau oll os ydynt ar dir a ddatblygwyd eisoes**
- **cyswllt da â'r rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd**
- **fel arfer, bod o fewn neu ar gyrion prif drigfan**
- **yn cael eu gwasanaethu gan gludiant cyhoeddus, neu fod mewn mannau lle gellir ei ddarparu**
- **gorau oll os ydynt mewn Ardal Gymorth**

6.11 Dangosir y safleoedd cyflogaeth presennol ym Map 1, Prif Safleoedd Datblygu. Fel arfer, clustnodir safleoedd pellach drwy'r broses rheoli datblygu. Mewn achosion eithriadol, gellir cwrdd â gofynion darpar gyflogwyr unigol mawr ar safleoedd eraill na chawsant eu cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Unedol.

6.12 Bydd awdurdodau lleol ac Awdurdod Datblygu Cymru yn cydweithio i sicrhau y darperir isadeiladwaith lle nad yw'n bod, gan geisio denu arian sydd ar gael oddi wrth y llywodraeth lle bo'i angen.

6.13 Dylid diogelu safleoedd cyflogaeth mawr rhag ffurfiau eraill ar ddatblygu dros gyfnod gweithredol y Canllaw hwn. Anaml iawn y caniateir defnydd o fath gwahanol arnynt. Bydd unrhyw ddatblygiad o'r fath yn gymharol fach a heb fod yn gwrthdaro â'r bwriad cyffredinol i ddarparu ar gyfer datblygiadau masnachol a diwydiannol ar y safleoedd a ddewisir.

Twristiaeth

6.14 Mae gan Ogledd Cymru lawer o atyniadau ac mae twristiaeth yn gyflogwr pwysig. Fodd bynnag, tymhorol ei natur yw'r rhan fwyaf o swyddi twristiaeth, ac fel arfer yn isel eu cyflog hefyd. Mae llawer iawn o lety gwyliau ar gael, yn bennaf mewn gwersylloedd gwyliau, lle mae cyfran uchel ohono'n lety hunan-arlwy. Y prif eithriad i hyn yw tref Llandudno, lle ceir 18% o'r holl welyau gwesty yng Nghymru.

6.15 Bu newid mewn arferion a datblygiadau twristaidd ers canol yr 20fed ganrif a arweiniodd at ddirywiad yn y trefi gwyliau glan môr traddodiadol. Mae'r farchnad wyliau yn llawer mwy tameidiog nag a fu gyda mwy o bwyslais ar weithgareddau unigol, tripiau dydd, gwyliau crwydro o le i le ac ansawdd. Mae angen parhaus am fuddsoddiad mewn cyfleusterau a llefydd aros os yw'r sector twristiaeth i ymateb i'r gofynion hyn a sialensau newydd yn yr unfed ganrif ar hugain.

6.16 Yn eu Cynlluniau Datblygu Unedol dylai awdurdodau lleol alluogi darparu amrywiol fathau o lety ac atyniadau newydd, yn cynnwys atyniadau bob tywydd. Dylai awdurdodau lleol geisio annog safonau uchel ac ymestyniad y tymor gwyliau. Drwy wneud hynny dylai fod modd dylanwadu i ddarparu mwy o swyddi llawn amser, ac uwch eu cyflog, mewn twristiaeth.

Canol Trefi

6.17 Prif ganolfannau is-ranbarthol yr ardal yw Bangor, Llandudno, Rhyl a Wrecsam ynghyd â chanolfannau llai, trefi marchnad gwledig a chyrchfannau ymwelwyr drwy'r ardal.

6.18 Yng nghanol trefi'r ardal buddsoddwyd yn helaeth iawn mewn isadeiladwaith, adeiladau hanesyddol, darpariaethau cyhoeddus a siopau. Gan fod yr adnoddau hyn yn agos at ei gilydd, mae'n lleihau'r angen i wneud siwrneiau ar wahan,

yn caniatáu ymweliadau aml-bwrpas ac yn annog y defnydd mwyaf effeithiol o drafnidiaeth. Mae'r trefi'n gwasanaethu dalgylchoedd llawer ehangach na'u ffiniau adeiledig ac yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol a chymundedol eu dalgylch. Darparant nifer arwyddocaol o swyddi yn ogystal.

6.19 Er mwyn sicrhau dyfodol ffyniannus a bywiog i ganol trefi, a threfi marchnad yr ardal dylai Cynlluniau Datblygu Unedol gyfrannu'n bositif drwy ddyrannu tir ar gyfer siopau a datblygiadau masnachol eraill.

6.20 Bydd datblygiadau tu allan i ganol trefi yn gymeradwy dan yr amgylchiadau a ganlyn yn unig: (i) fod y posibiliadau ar gyfer datblygu'r canol yn gyfyngiedig iawn; (ii) y dilynir y drefn ddilyniannol (*sequential*) wrth ystyried safleoedd; (iii) fod yr effaith ar ganolfannau eraill yn dderbyniol.

6.21 Yn achos trefi marchnad bychain dylai Cynlluniau Datblygu Unedol ystyried y posibilrwydd o glustnodi safleoedd ar gyfer archfarchnad fwyd yng nghanol neu ar gyrion y dref, pe bai hynny'n sicrhau parhad yn ffyniant a bywiogrwydd y dref.

Cynigion Siopa Rhanbarthol

6.22 Mae datblygiad canol trefi a chanolfannau siopa Gogledd Cymru wedi ei ddylanwadu'n drwm gan wariant a gollir o'r rhanbarth. Collir busnes yn arbennig i Gaer a Cheshire Oaks, a hefyd i ddatblygiadau yn Lerpwl a Manceinion. Bydd y rhanbarth yn gyffredinol yn gwrthwynebu datblygiadau cyrion tref ac estyniadau sylweddol i'r canolfannau presennol oherwydd y bygythiad a greant i ganol trefi presennol yr ardal, os collir rhagor o wariant.

6.23 Ystyrir y byddai'n amhriodol yng Ngogledd Cymru lleoli unrhyw ganolfannau siopa rhanbarthol ychwanegol (h.y. datblygiadau siopa o faint mwy na 20,000 metr sgwâr gros) tu allan i drefi oherwydd:-

- **bodolaeth ymrwymiadau datblygu sylweddol yng nghanol y trefi ac ar eu cyrion**
- **anhawster denu'n ôl unrhyw wariant siopa a gollir**
- **yr angen i warchod canol y trefi**
- **effaith amgylcheddol teithio'n bellach i siopa**

6.24 Dylai awdurdodau cynllunio baratoi eu Cynlluniau Datblygu Unedol gan gadw hyn mewn cof. Dylent hefyd ymgynghori a chydweithredu â'i gilydd yn achos cynigion i ddatblygu siopau bwyd a datblygiadau arfaethedig eraill o faint 10,000 metr sgwâr neu fwy.

6.25 Mae cynigion eisoes yn bodoli i godi cyfleusterau siopa mawr yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr a allai gael effaith economaidd niweidiol ar ganol trefi Gogledd Cymru. Gan hynny, bydd awdurdodau cynllunio Gogledd Cymru yn ymdrechu i gytuno ar drefniadau cyffelyb gyda'r awdurdodau cyfagos yn Lloegr.

7. Cymunedau Hyfyw

Tai

7.1 Mae Gogledd Cymru wedi gorfod dygymod â phwysau o wahanol fathau yn y farchnad dai yn ystod y degawdau diwethaf. Yn y dwyrain gwelwyd datblygiad ar raddfa lawer mwy na'r anghenion cynhenid lleol. Cafwyd cymysgedd o ddatblygiadau - tai ymddeol, yn bennaf ar gyfer pobol o Ogledd Orllewin Lloegr, a thai ar gyfer rhai sy'n teithio, neu gymudo, i'w gwaith. Arweiniodd y tai cymudo at lifeiriant dyddiol trwm o gerbydau ar hyd yr A55 a'r A483, ac i mewn i Gaer, Cilgwri a rhannau eraill o Ogledd Orllewin Lloegr. Ni chafwyd yr un pwysau yn y gorllewin, ond mae ffyniant yr ardal hon yn y dyfodol ynghlwm wrth nodweddion

amgylcheddol, diwylliannol a ieithyddol yr ardal.

7.2 Yn amlwg ni ellir cynnal y patrwm hwn o ddatblygu yn rhan ddwyreiniol Gogledd Cymru i'r dyfodol, yn nhermau'r effaith ar symudiadau traffig, yr oblygiadau i'r farchnad lafur a gwasnanaethau lleol, na'r effaith a gaiff datblygiadau preswyl mawr, ac anghydnaws yn aml, ar eu hamgylchfyd. Yn y gorllewin mae mewnfudo wedi newid cymeriad ieithyddol yr ardal. Gan hynny, dylid edrych o'r newydd ar raddfa'r ddarpariaeth dai yng Ngogledd Cymru, a'r rhesymau dros eu codi.

7.3 Bydd y ddarpariaeth dai mewn Cynlluniau Datblygu Unedol yn seiliedig ar yr ystyriaethau a ganlyn:-

- **Cwrdd ag anghenion tai poblogaeth bresennol yr awdurdod lleol ar gyfer y dyfodol, ac unrhyw gynnydd a ddeillia o dwf yn nifer y teuluoedd**

- **Os darperir tai i gwrdd ag anghenion mewnfudiad yn y dyfodol, dylai hynny fod yn seiliedig ar nifer o ystyriaethau:-**
  - **lefelau mewnfudiad y gorffennol;**
  - **dymunoldeb sicrhau strwythur oedran na achosa feichiau afresymol ar gyfleusterau lleol nac arwain at bryderon ynghylch dyfodol y gymuned leol;**
  - **y polisi economaidd lleol mewn perthynas â denu buddsoddiad a'r gallu i ddarparu swyddi;**
  - **gallu'r ardal i ddygymod yn foddhaol â'r tai a godir yn y dyfodol a bodolaeth isadeiladwaith boddhaol.**

7.4 Dylai'r ddarpariaeth dai gydnabod yr angen i wneud y defnydd mwyaf posibl o stoc dai bresennol yr ardal yn ogystal â safleoedd diffaith, safleoedd nas defnyddir yn llawn ac eiddo masnachol gwag mewn canol trefi a mannau eraill. Rhaid cyfiawnhau ar sail gwybodaeth leol a thueddiadau'r gorffennol unrhyw ddarpariaethau mewn Cynlluniau Datblygu Unedol ar gyfer safleoedd a ddaw ar gael yn annisgwyl a newid defnydd eiddo.

7.5 Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol seilio eu cynigion tai ar y ffigyrau a nodir isod. Bellach mae gan awdurdodau Gogledd Cymru ragamcanion cyfredol ar gyfer maint y boblogaeth a nifer y teuluoedd (Atodiad 1). Maent yn unigol wedi cwblhau gwaith ar gyfyngiadau amgylcheddol ac astudiaethau cynhwysedd ac adlewyrcha'r ffigyrau isod yr ystyriaethau hynny.

Y niferoedd uchaf arfaethedig o dai a godir yn y cyfnod 1996 - 2011

Awdurdod Lleol	
Ynys Môn	**2,200** (1)
Conwy	**4,500** (2)
Dinbych	**4,100** (3)
Sir y Fflint	**7,400** (4)
Gwynedd	**3,400** (5)
Parc Cenedlaethol Eryri	**700** (6)
Wrecsam	**5,600** (7)
Cyfanswm	**27,900**

(1) Mae'r ffigwr hwn yn adlewyrchu awydd y Sir i wrthsefyll gostyngiad disgwyliedig ym maint y boblogaeth dros gyfnod y Cynllun drwy hwyluso datblygiad tai, ac mae'n uwch na'r rhagolwg tai.
(2) Ffigwr y CDU drafft, a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir i bwrpas ymgynghori. Mae'n caniatáu ar gyfer twf cymhedrol ym maint y boblogaeth a mewnfudiad cydnaws ag (i) annog mewnfuddsoddiad a chynnydd mewn swyddi a (ii) gallu'r ardal i ddygymod â datblygiad yn y dyfodol, yn arbennig ar hyd yr arfordir. Nid yw'r ffigwr yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri.
(3) Newid arfaethedig I'r CDU a roddwyd ar adnau Gwanwyn 2000:- 4100 ar gyfer y cyfnod 1996 - 2011.
(4) Daw'r ffigwr hwn o Ail Addasiad y Cynllun Fframwaith: Rhifyn Sir y Fflint, 1996 - 2001 ac o'r CDU Ymgynghorol Drafft (Mai 2000) ar gyfer 2001-2011. Dylid nodi mai'r ffigwr ar gyfer anghenion tai a gyhoeddwyd yn CDU Drafft Sir y Fflint oedd 6,500 ar gyfer y cyfnod 2000-2015.
(5) Ffigwr seiliedig ar ymchwil a gomisiynwyd ar y cyd gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Nid yw'r ffigwr yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri. Byddai newid defnydd yn cyfrannu tua 500 o unedau at y ffigwr hwn.
(6) Seiliwyd ar ragamcanion nifer y teuluoedd gan ragdybio graddfeydd is o ymfudiad yn seiliedig ar dystiolaeth mai sero net oedd ymfudiad ym Meirionnydd rhwng 1991 a 1996. Rhagdybir y bydd twf o fewn ardal y Parc ychydig yn is nag yng Ngwynedd a Chonwy oherwydd absenoldeb canolfannau trefol mawr.
(7) Y ffigwr yn CDU Mawrth 2000, a roddwyd ar adnau, yw 5500. Mae'n gyson â'r rhagamcanion diweddaraf poblogaeth/teuluoedd.
Nodir rhagamcanion poblogaeth a nifer y teuluoedd yn Atodiad 1.

Trigfannau newydd

7.6 Golyga'r ymrwymiadau tai uchod na fydd angen trigfannau newydd sbon yng Ngogledd Cymru i gwrdd â gofynion y ffigyrau hyn.

Yr Iaith Gymraeg

7.7 Dylai maint a math pob datblygiad roi ystyriaeth bob amser i nodweddion unigryw rhanbarthol a lleol yr ardal, a'r angen i ddiogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig lle mae'n rhan o ffabrig cymdeithasol y gymuned.

Ardaloedd Gwledig

7.8 Achosir mwy nag erioed o bwysau yng nghefn gwlad gan wrthdaro rhwng buddiannau datblygu a chadwraeth.

7.9 Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol gynnwys canllawiau clir i warchod nodweddion ac ardaloedd naturiol pwysig, a hyrwyddo datblygiadau priodol sy'n diogelu'r buddiannau hyn tra'n helpu i amrywio ac adfywio'r economi a chaniatáu ffyniant cymunedau lleol.

7.10 Dylai polisïau tai adlewyrchu'r angen i gynnal cymunedau lleol, gan gydnabod y gall rhai tai ychwanegol fod o gymorth i ffyniant cymunedau lleol. Mae hyn yn golygu pennu faint o dai a, lle cynhaliwyd arolygon lleol, pa fathau o ddarpariaeth y gall cymunedau lleol ddygymod â nhw heb niweidio eu cymeriad ffisegol a chymdeithasol. Mae hyn yr un mor wir mewn ardaloedd Cymraeg a Saesneg eu hiaith.

7.11 Oherwydd y gostyngiad diweddar mewn incwm ffermydd, amlygwyd o'r newydd yr angen i hyrwyddo cynlluniau arallgyfeirio priodol mewn ardaloedd gwledig, ynghyd â'r angen i greu mwy o swyddi a chadw swyddi a gwasanaethau presennol megis siopau a chyfleusterau cymuned.

7.12 Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol ddarparu safleoedd addas i ddatblygiadau o'r fath, a hyrwyddo cynlluniau ehangu neu addasu priodol sy'n creu gwaith. Dylent warchod ardaloedd sensitif rhag datblygiadau amhriodol, gan ddarparu ar ei gyfer yn rhywle arall.

7.13 Dylai strategaeth pob cynllun datblygu gydnabod yn eglur y rhyngweithio a geir rhwng gwlad a thref, a'r effaith a gaiff penderfyniadau ynghylch siopau a thrafnidiaeth trefol, er enghraifft, ar ardaloedd gwledig.

8. Gwell Defnydd o Adnoddau

Trafnidiaeth

8.1 Gall strategaeth defnydd tir gyfrannu at leihau'r angen i deithio drwy hyrwyddo cymunedau hunan-gynhaliol a lleoli prif ddatblygiadau mewn mannau lle nad ydynt yn cynyddu pellterau teithio nac annog dibyniaeth ar geir a lorïau. Ni all cynllunio defnydd tir ynddo'i hun beri i bobl newid eu cyfrwng teithio o geir i ffurfiau eraill ar drafnidiaeth. Rhaid ystyried polisïau o fewn cyd-destun ehangach materion heblaw mesurau defnydd tir. Enghreifftiau o hyn yw'r gefnogaeth ariannol i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a'r ymatebion i'r Ddeddf Lleihau Trafnidiaeth Ffordd.

Dyrannu Tir

8.2 Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol wneud y canlynol:

- **Ceisio cydberthnasu polisïau defnydd tir a thrafnidiaeth i leihau'r defnydd o geir, gan gyfeirio'n arbennig at y polisïau a gynhwysir mewn Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol.**
- **Datblygu polisïau a chynigion sy'n lleihau'r angen i deithio mewn ceir neu lorïau gan gyfeirio'r drafnidiaeth honno i ddulliau amgylcheddol mwy derbyniol.**
- **Annog dylunio datblygiadau mewn modd sy'n hwyluso moddion teithio heblaw ceir a lorïau**
- **Cydnabod pwysigrwydd parhaus y car mewn ardaloedd gwledig lle gall fod yn anymarferol defnyddio ffurfiau eraill ar drafnidiaeth**
- **Gosod meini prawf ar gyfer archwilio dyraniadau tir newydd ochr yn ochr â'r rhwydwaith trafnidiaeth a cheisio darparu pob cyfle ar gyfer gwneud siwrneiau drwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus, beicio a cherdded**
- **Cydnabod pwysigrwydd egwyddorion cadarn diogelwch y ffyrdd yn achos datblygiadau newydd fel modd o leihau damweiniau**
- **Darparu cyngor am safonau parcio oddi ar y stryd a mesurau eraill i reoli galw**

Isadeiladwaith

8.3 Dylai awdurdodau lleol yn eu Cynlluniau Datblygu Unedol wneud darpariaeth ar gyfer isadeiladwaith ffisegol a fydd yn caniatáu llwybrau cyfathrebu gwell, nid yn unig o fewn y rhanbarth ond hefyd â rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon. Dylid rhoi sylw arbennig i dagfeydd strategol yn y system. Y cysylltiadau allweddol yw:

- **rheilffyrdd Caergybi-Caer-Manceinion/Crewe/Llunain a Chaer-Wrecsam-Amwythig-Caerdydd;**
- **gwibffordd yr A55 o Gaergybi i'r rhwydwaith traffyrdd yn Lloegr, a'r ffyrdd cysylltu A494, A550 ac A5117;**
- **yr A483, A487 ac A470 sy'n cysylltu â De Cymru;**
- **coridorau llwybrau bysus strategol yn cysylltu'r prif drefi a chanolfannau gwaith;**
- **porthladdoedd Caergybi, Mostyn a Phorth Penrhyn;**
- **cyfleusterau awyr Penarlâg, Y Fali, Mona a Chaernarfon, a thu allan y rhanbarth ym Manceinion a Lerpwl;**
- **Llwybrau Beicio Cenedlaethol N5 (Caergybi i Lerpwl) ac N8 (Caergybi i Gaerdydd)**

8.4 Dylid annog datblygiad cyfleusterau newydd a gwell er mwyn cludo cyfran uwch o nwyddau gan drenau a llongau. Lle'n briodol, dylai Cynlluniau Datblygu Unedol glustnodi a diogelu safleoedd ger rheilffyrdd a phorthladdoedd a fyddai'n addas ar gyfer busnesau sy'n barod i ddefnyddio'r

cyfleusterau hyn. Dylid archwilio'r potensial ar gyfer sefydlu terfynellau ffyrdd/rheilffyrdd ar hyd Gogledd Cymru a lleoliadau eraill addas.

Ynni

8.5 Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol hyrwyddo lledaeniad cyfathrebu digidol, er mwyn cryfhau atyniad economaidd yr ardal a lleihau'r angen i deithio.

8.6 Mae gan Ogledd Cymru, fel mannau eraill, ddibyniaeth allweddol ar gyflenwad ynni parod, y mae ei gynhyrchu a'i ddefnyddio yn cael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd. Un o'r amcanion cyntaf felly ddylai fod lleihau defnydd ynni.

8.7 Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol gynnwys polisïau i geisio lleihau'r galw am adnoddau ynni terfynadwy, a'r defnydd a wneir ohonynt, er enghraifft drwy gadwraeth ynni.

8.8 Ar hyn o bryd mae'r holl broses o ymwneud â datblygiadau yn y maes ynni yn dameidiog, a'r rheolaeth drosti yn gorwedd gydag amrywiol gyrff gwahanol. Mae angen integreiddio rhagor ar y rheolaeth dros ddatblygiadau yn y môr a datblygiadau cysylltiedig ar y tir gan yr holl asiantaethau, adrannau llywodraeth ac awdurdodau lleol.

Olew a Nwy

8.9 Polisi'r Llywodraeth yw elwa i'r eithaf ar werth economaidd gwaddodion olew a nwy, cyn belled â bod hynny'n gydnaws ag arferion da a gwarchodaeth yr amgylchedd. Mae tyllu am olew a nwy yn digwydd yn y môr mewn sawl rhan o Fae Lerpwl a Môr Iwerddon, a disgwylir rhagor o ddatblygiadau masnachol maes o law.

8.10 Ar hyn o bryd, daw nwy i'r lan a chaiff ei brosesu yn Y Parlwr Du, Talacre, lle mae potensial i ehangu'n sylweddol. Yno mae canolfan brosesu yn barod yn ei lle a allai ddelio ag unrhyw ddatblygu pellach ar waddodion olew a nwy sector gogleddol Môr Iwerddon.

8.11 Rhaid i Gynlluniau Datblygu Unedol roi ystyriaeth bellach i'r effeithiau posibl yn y dyfodol pe cynhyrchid ynni o sectorau gorllewin a de-orllewin Môr Iwerddon, a'r angen dilynol i ganfod safleoedd i ddod â thanwydd i'r lan, ei brosesu a chynhyrchu ynni cysylltiedig yng Ngogledd Orllewin Cymru.

8.12 Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol ystyried y posibilrwydd o gynnwys polisïau ar gyfer hyrwyddo datblygiad gwaddodion olew a nwy a geir o dan dir Gogledd Cymru, ynghyd â chyfleusterau gwasanaethu i gefnogi'r

diwydiant. Mae hyn ar yr amod na fyddid yn niweidio'n arwyddocaol fuddiannau o bwysigrwydd amgylcheddol neu fwynder cydnabyddedig.

8.13 Mae rhannau helaeth o Ogledd Cymru wedi eu dynodi'n ardaloedd pwysig eu hamgylchfyd, a rhaid eu gwarchod rhag unrhyw niwed a achosir gan ddatblygiad.

8.14 Dylid lleoli unrhyw bibelli newydd i gludo olew neu nwy mewn mannau daearegol gadarn nad ydynt yn ffurfio rhan o ddalgylchoedd dwr wyneb neu ddwr daear. Dylid eu gosod hefyd ymaith oddi wrth ardaloedd lle mae'r amgylchedd yn arbennig o sensitif, er mwyn lleihau i'r eithaf y gwrthdaro â defnydd presennol neu arfaethedig y tir dan sylw a gwarchod adnoddau dwr rhag cael eu llygru.

8.15 Fe allai datblygu gwaddodion olew a nwy arwain at fwy o bwysau am bwerdai tyrbin nwy cylch cyfun (*combined cycle gas turbine*) sy'n defnyddio nwy sur, drudfawr i'w brosesu a'i buro.

8.16 Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol gyfeirio datblygiad pwerdai a chyfleusterau trawsgludo newydd lle bynnag y bo modd i leoliadau o fewn neu gerllaw ardaloedd diwydiannol presennol, neu i safleoedd priodol tir brown. Mae hyn er mwyn sicrhau na chânt effaith annerbyniol ar gymunedau lleol na'r amgylchedd ac osgoi'r angen am wifrau cludo trydan uwchben y ddaear, lle bo modd.

Ynni Adnewyddadwy

8.17 Mae'r Oblygiad Tanwydd Di-Ffosil wedi arwain at dwf cyflym mewn gweithgaredd yn y maes ynni adnewyddadwy, yn amrywio o gynlluniau ynni gwynt a thrydan dwr i gynlluniau cyfun gwres ac ynni, systemau haul a bio-màs. Yng Ngogledd Cymru ceir y potensial i gyfrannu tuag at darged y llywodraeth o gwrdd â 10% o alw'r Deyrnas Gyfunol am drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010. Eisoes gwelwyd nifer o geisiadau am ddatblygiadau ynni amgen yn deillo o hyrwyddiad yr Oblygiad Tanwydd Di-Ffosil.

8.18 Dylai Cynlluniau Datblygu Unedol hwyluso datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy o faint priodol lle mae eu heffaith amgylcheddol yn dderbyniol.

Mwynau

8.19 Cloddir am amrywiaeth eang o fwynau yng Ngogledd Cymru ar gyfer y sectorau adeiladu a chynhyrchu ynni, ac at amcanion diwydiannol arbenigol. Defnyddir calchfaen, tywodfaen a gro fel deunydd adeiladu ("agreg"). Hefyd defnyddir clai i gynhyrchu brics a theils, a llechi ar gyfer adeiladu a thoi. Mae cloddio am fwynau yn rhan bwysig o'r economi leol ac yn darparu llawer o swyddi, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag rhaid rheoli mwyngloddio yn

ofalus er mwyn lleihau i'r eithaf ei ddylanwad ar gymeriad ardal a'i thrigolion lleol. Dylai datblygiadau mwyngloddio newydd geisio osgoi ardaloedd a ddynodwyd yn genedlaethol fel mannau o ddiddordeb tirweddol neu ecolegol.

8.20 Dylai Cynlluniau Datblygu geisio diogelu adnoddau mwynol rhag cael eu sterileiddio gan ddatblygiadau amhriodol.

Darparu agreg o fewn y Rhanbarth

8.21 Dylai Cynlluniau Datblygu gynnwys polisïau i wrthwynebu gweithfeydd newydd neu estyniadau i weithfeydd presennol, neu ailagor hen chwareli (yn cynnwys chwareli segur) mewn Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol fel mannau o bwysigrwydd ecolegol a safleoedd eraill o bwysigrwydd cenedlaethol o fewn y Rhanbarth.

8.22 Mae'n fwriad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynhyrchu Nodyn Cynghori Technegol yn cynnwys manylion ynglyn â darparu a chloddio am agreg. Yn y cyfamser, mae arweiniad cenedlaethol a rhanbarthol ar gael yn y dogfennau a ganlyn:-

(a) Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, a gyhoeddwyd gan y Cynulliad yn Rhagfyr 2000. Yma amlinellir y cyd-destun eang ar gyfer mwyngloddio a phwysleisir yr angen i ddilyn egwyddorion datblygiad cynaladwy ochr yn ochr â diogelu parhad cyflenwadau hanfodol o agreg.

(b) *Mineral Planning Guidance Note 6 (Aggregates Provision in England and Wales)*, a gyhoeddwyd ar y cyd gan Adran yr Amgylchedd a'r Swyddfa Gymreig yn 1989. Cafodd rhannau helaeth o'r nodyn hwn eu diddymu ond mae darnau eraill yn dal mewn grym - yn ymwneud â gwaith cynnal a mesur faint o fwynau agreg a gedwir wrth gefn, a monitro ac adolygu adnoddau a'r galw.

(c) Canllawiau ar gyfer Darparu Agreg, a gynhyrchwyd gan Gyd-Weithgor Gogledd Cymru ar Agregau ym Mawrth 1995. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys amcangyfrifon o'r galw tebygol am agreg o ffynonellau yng Ngogledd Cymru dros y cyfnod hyd at 2006.

8.23 Y cwestiwn allweddol mewn perthynas â darpariaeth agreg Gogledd Cymru yw i ba raddau y gellir cadw symiau digonol o agreg wrth gefn yn wyneb y cyfyngiadau tirwedd, mwynder ac ecolegol sylweddol a fodola drwy'r rhanbarth. Mae'r canllaw cyfredol (*Mineral Planning Guidance Note 6*) yn dweud mai'r swm priodol o fwynau ar gyfer ardal leol yw cyflenwad o leiaf 10 mlynedd yn achos tywod a graean - mwy o bosibl yn achos cerrig mâl. Fodd bynnag, efallai na ellir cwrdd â'r targedau hyn (nac unrhyw dargedau diwygiedig a

osodir gan y Cynulliad Cenedlaethol) o fewn ffiniau awdurdodau cynllunio unigol. Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn datgan, mewn amgylchiadau o'r fath, y dylid cytuno ar ddull gweithredu ar y cyd rhwng awdurdodau sy'n ffinio â'i gilydd, yn cynnwys cyswllt â'r awdurdodau cynllunio mwynau perthnasol yn Lloegr.

8.24 Mae angen asesu dosbarthiad y ddarpariaeth o gyflenwadau agreg rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru. Ystyrir y mater hwn gan Weithgor Agregau Gogledd Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, y Cynulliad Cenedlaethol a'r diwydiant mwyngloddio.

Effaith ar yr amgylchedd

8.25 Dylai Cynlluniau Datblygu ddarparu ar gyfer cadw symiau digonol o fwynau agreg wrth gefn o fewn is-ranbarthau Gogledd Ddwyrain Cymru (siroedd Conwy, Dinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) a Gogledd Orllewin Cymru (siroedd Gwynedd, Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri). Dylai cynlluniau gydnabod unrhyw amgylchiadau arbennig a effeithia ar gyfraniad posibl awdurdodau lleol unigol.

8.26 Yn ogystal â chyflenwi marchadoedd lleol o fewn y rhanbarth mae llawer o fwynau'n cael eu cludo allan o'r ardal, yn arbennig ar y ffyrdd o Ogledd Ddwyrain Cymru i Ranbarth Gogledd Orllewin Lloegr. Mae un chwarel ger arfordir Gogledd Cymru wedi ei chysylltu â'r rhwydwaith rheilffyrdd ac mae gan ddwy chwarel lanfeydd ar gyfer allforio'u cynnyrch mewn llongau.

8.27 Dylai Cynlluniau Datblygu annog cludo mwynau ar y rheilffordd neu mewn llongau yn hytrach nag ar y ffyrdd, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol.

8.28 Mae parhad hen benderfyniadau caniatad cynllunio dilys, yn dyddio o'r cyfnod 1947 i 1982, bellach wedi ei gadarnhau drwy'r rhestrau a baratowyd dan Ddeddf Amgylchedd 1995, fel rhan o'r drefn Adolygiad Mwynau. Yng Ngogledd Cymru mae llawer o'r enghreifftiau hyn o natur amhriodol yn ôl safonau modern am resymau tirwedd neu ecoleg yr ardal, eu hagosatrwydd at ardaloedd preswyl neu'r rhwydwaith sâl o ffyrdd a'u gwasanaetha. Yn awr mae trefniadau'r "Adolygiad" yn rhoi cyfle i gymhwyso amodau modern (neu Orchmynion priodol) i safleoedd o'r fath.

8.29 Dylai Cynlluniau Datblygu anelu i leihau, a lliniaru lle bo modd, effeithiau niweidiol mwyngloddio, yn cynnwys effeithiau cludiant, ar yr amgylchedd ac ar fwynder cymunedau lleol.

8.30 Dylai Cynlluniau Datblygu sicrhau fod gweithfeydd mwyngloddio yn cael eu hadfer yn gynyddol.

8.31 Yn aml gellir canfod mwynau addas i'w hailddefnyddio mewn tomenni gwastraff megis tipiau glo neu rwbel llechi, yna'u defnyddio fel "agregau eilradd". Gall fod yn briodol, er enghraifft, fel deunydd llanw mewn gwaith adeiladu neu i gynhyrchu sment. Mewn rhai achosion gall leihau'r angen i gloddio o'r newydd am fwynau "cynradd".

8.32 Dylai Cynlluniau Datblygu annog defnydd o agregau eilradd.

Gwastraff

8.33 Cleddir y rhan fwyaf o'r sbwriel domestig a gynhyrchir yng Ngogledd Cymru mewn nifer fach o safleoedd tirlenwi. Mae llawer o'r mannau claddu gwastraff presennol o fewn y rhanbarth yn bur lawn, fel y bydd angen rhagor o gyfleusterau trin a gwaredu gwastraff. Caiff peth gwastraff clinigol ei drylosgi o fewn y rhanbarth. Hefyd, cludir gwastraff "arbennig" allan o'r rhanbarth i'w drin neu ei waredu yn Lloegr. Ychydig o gyfleustrau sydd ar gael o fewn y rhanbarth ar hyn o bryd i ailgylchu gwastraff adeiladu a gwastraff dymchwel.

8.34 Canolbwyntia Strategaeth Wastraff 2000 Cymru a Lloegr (Mai 2000) ar yr egwyddorion a ganlyn:-

a) Yr Hierarchiaeth Wastraff:
Mae hon yn dilyn y drefn a ganlyn:
Yn gyntaf lleihau gwastraff i'r eithaf lle bynnag y'i cynhyrchir;
Yn ail - ailddefnyddio deunydd gwastraff;
Yn drydydd - adfer gwastraff, drwy ei ailgylchu mewn cynhyrchion newydd, ei droi'n wrtaith neu ei ddefnyddio fel tanwydd cynhyrchu ynni;
Yn olaf - claddu mewn safle tirlenwi yw'r dewis olaf, ond bydd raid lleihau'n sylweddol y gwastraff a anfonir i'w gladdu oherwydd Cyfarwyddeb Claddu Gwastraff y Gymuned Ewropeaidd 1999/31/EC.

b) Agosatrwydd:
Dylid rheoli gwastraff mewn cyfleuster priodol mor agos â phosib I'w darddle.

c) Hunan-gynhaliaeth:
Dylai pob rhanbarth, lle bynnag y bo modd, fod yn hunan-gynhaliol wrth reoli gwastraff

ch) Y Dewis Amgylcheddol Ymarferol Gorau:
Sicrhau fod y dull a ddewisir i weithredu unrhyw ddewis penodol yn seiliedig ar ystyried ei oblygiadau amgylcheddol o gymharu ag unrhyw ddewisiadau eraill

ymarferol, ac y dewisir y dull gweithredu a fydd yn achosi'r niwed lleiaf i'r amgylchedd gan weithredu o fewn y rheoliadau sy'n bodoli ar y pryd.

d) Cynaladwyaeth:
Cwrdd ag anghenion y gymuned heb amddifadu cenedlaethau'r dyfodol o'r hawl i fwynhau'r gorau o'r amgylchedd presennol.

Adolygir y strategaeth hon gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2001-2.

8.35 Gosododd y Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru y targedau a ganlyn:-

Gwastraff domestig:
Ailgylchu neu gompostio o leiaf 25% o'r hyn a gynhyrchir erbyn 2005
Ailgylchu neu gompostio o leiaf 30% o'r hyn a gynhyrchir erbyn 2010
Ailgylchu neu gompostio o leiaf 33% o'r hyn a gynhyrchir erbyn 2015
Gwastraff diwydiannol a masnachol
Lleihau'r cyfanswm a anfonir i safleoedd claddu gwastraff i 85% o lefelau 1998 erbyn 2005
Gwastraff Trefol Pydradwy
(yn rhannol yn wastraff domestig ac yn rhannol yn wastraff masnachol) a anfonir i'w gladdu mewn safle tirlenwi
erbyn 2010, lleihau i 75% o'r hyn a gynhyrchid yn 1995
erbyn 2013, lleihau i 50% o'r hyn a gynhyrchid yn 1995
erbyn 2020, lleihau i 35% o'r hyn a gynhyrchid yn 1995.

O ganlyniad i'r rheidrwydd i weithredu'r targedau hyn bydd angen datblygu cyfleusterau newydd yn rhanbarth Gogledd Cymru a all leihau, ailddefnyddio ac adfer gwastraff, yn arbennig gwastraff domestig. Efallai hefyd y bydd angen safleoedd claddu gwastraff newydd mewn rhannau o'r rhanbarth. Yn ogystal, bydd angen adolygu rhai o'r safleoedd presennol, oherwydd newid ym maint, math a dosbarthiad y gwastraff a gynhyrchir.

8.36 Dylai Cynlluniau Datblygu fynnu bod safleoedd rheoli a gwaredu gwastraff yn cael eu hadfer yn ddigonol i ôl-ddefnydd priodol, gan ddarparu'r ôl-ofal angenrheidiol.

8.37 Dylai Cynlluniau Datblygu ddarparu ar gyfer sefydlu rhwydwaith digonol o gyfleusterau rheoli a gwaredu gwastraff er mwyn sicrhau fod rhanbarth Gogledd Cymru, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, yn abl i ddelio â'r holl wastraff a gynhyrchir o fewn y rhanbarth. Dylai awdurdodau lleol gydnabod unrhyw amgylchiadau

arbennig a effeithia ar allu awdurdod unigol i ddarparu cyfleusterau penodol.

8.38 Mae angen gwneud asesiad o'r cyfleusterau gwahanol ar gyfer rheoli gwastraff fydd ar gael i drin gwastraff a anfonir ar hyn o bryd i'w gladdu mewn safleoedd tirlenwi. Bydd raid ystyried y mater hwn yn strategol ar lefel ranbarthol gydag awdurdodau lleol, y diwydiant rheoli gwastraff, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud â'r broses.

8.39 Dylai Cynlluniau Datblygu sicrhau, wrth roi caniatâd ar gyfer datblygiadau newydd, y caiff y gwastraff a gynhyrchir ei leihau i'r eithaf ac y rhoddir sylw i'r dull o drin neu waredu'r gwastraff a greir gan y gweithgareddau cynhyrchu neu brosesau eraill cysylltiedig â'r datblygiad.

8.40 Dylai Cynlluniau Datblygu sicrhau fod rhagdybiaeth yn erbyn cyfleusterau rheoli gwastraff a fyddai'n arwain at gyfanswm cynhwysedd uwch na gofynion yr ardal.

8.41 Dylai Cynlluniau Datblygu fod â rhagdybiaeth yn gyffredinol o blaid cyfleusterau ar gyfer lleihau, ailddefnyddio ac adfer gwastraff a gynhyrchir o fewn y rhanbarth, ar yr amod na chreir niwed arwyddocaol i ansawdd amgylchedd tir ffiniol a'i ddefnyddwyr .

8.42 Dylai Cynlluniau Datblygu wrthsefyll lleoli cyfleusterau mawr ar gyfer rheoli neu waredu gwastraff mewn Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol o bwysigrwydd ecolegol a safleoedd eraill o bwysigrwydd cenedlaethol o fewn y rhanbarth.

8.43 Dylai Cynlluniau Datblygu sicrhau fod unrhyw safleoedd newydd angenrheidiol ar gyfer rheoli neu waredu gwastraff yn cael eu hadfer yn foddaol.

9. Adolygu'r Canllaw

9.1 Er mwyn iddo barhau'n berthnasol, bydd angen adolygu'r Canllaw hwn a'i ddiweddaru mewn cylch treigl pum mlynedd.

9.2 Bydd aelodau o Grwp Cynllunio Gogledd Cymru yn derbyn adroddiadau monitro rheolaidd ynglyn â'r data allweddol a nodir isod a chynhelir adolygiad llawn o'r Canllaw o fewn tair blynedd er mwyn ymateb i unrhyw amcangyfrifon diwygiedig ynghylch nifer y tai a theuluoedd.

9.3 I gadw'r Canllaw yn berthnasol a chyfredol, ac er mwyn asesu i ba raddau y mae'r rhanbarth yn datblygu mewn ffordd gynaladwy, rhaid monitro'r egwyddorion cynllunio rhanbarthol. Dewiswyd dangosyddion mesuradwy ar gyfer bob proffil. Ni osodir targedau yn y Canllaw hwn. Mater i bob awdurdod unigol yw gosod ei dargedau ei hun wrth baratoi ei Gynllun Datblygu Unedol.

Data Allweddol

Amgylchedd

- dangosyddion Cynlluniau Lleol Gweithredu Bioamrywiaeth a Chynlluniau Gweithredu Cynefinoedd a Rhywogaethau
- nifer a math yr achosion o wyro oddi wrth y cynllun datblygu

Economi iach

- y safloedd strategol sydd ar gael
- y tir sydd ar gael ar gyfer cyflogaeth
- canlyniad astudiaethau hyfywdra canol trefi

Cymunedau hyfyw

- y tir sydd ar gael ar gyfer tai
- twf yn y boblogaeth a nifer y teuluoedd
- y nifer sy'n siarad Cymraeg
- anghenion tai

Gwell defnydd o adnoddau

- gwaddodion mwynau a banciau tir
- gwastraff a gynhyrchir / ailgylchir
- bodolaeth strategaethau lleihau gwastraff
- dangosyddion Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol

10. Y rhai yr ymgynghorwyd â nhw

Aelodau Senedd Ewrop, Senedd San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru
Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Wledig
Asiantaeth yr Amgylchedd
Awdurdod Glo
Awdurdod Datblygu Cymru
Awdurdod Hedfan Sifil
Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru
Awdurdod Rhanbarthol Dulyn & Dun Laoghaire
British Coal Opencast
British Rail Property
British Telecom
British Waterways
British Wind Energy Association
Bwrdd Croeso Cymru
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
CADW
CELTEC
Central Trains
Comisiwn Coedwigaeth
Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
Comisiwn Cyfle Cyfartal
Comisiwn Stadau'r Goron
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Cyfeillion y Ddaear (Cymru)
Cymdeithas y Cynghorau Lleol
Cymdeithas y Cynhyrchion Chwarel
Cyngor Bwrdeistref Ellesmere Port & Neston
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Chwaraeon Cymru
Cyngor Dinas Caer
Cyngor Gwarchod Cymru Wledig
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Amwythig
Cyngor Sir Caer
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Dinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor y Parciau Cenedlaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Adain Cynllunio)
Dwr Wrecsam PLC
ETSU
Ffederasiwn y Codwyr Tai
Fforwm Economaidd Canolbarth Cymru
Fforwm Economaidd Gogledd Cymru
Grwp Cynghori Aber Afon Dyfrdwy
Gweithgor Iechyd a Diogelwch Heddlu Gogledd Cymru

Hyder PLC
National Power
North West Regional Chamber
North West Trains
Parc Cenedlaethol Eryri
PowerGen PLC
Railtrack PLC
Richard Moorhead & Laing
Royal Mail Property Holdings West
RSPB
Scottish Power
Swydda'r Llywodraeth ar gyfer y Gogledd Orllewin
Transco
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Wales and West Trains
Y Grid Cenedlaethol
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

I ychwanegu eich enw at y rhestr ymgynghori cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Judith Williams ar 01978 292501.

Atodiad 1

Rhagamcanion Poblogaeth a Nifer y Teuluoedd

1. Cyflwyniad

1.1 Yn absenoldeb casgliad cyfredol a dibynadwy o ragamcanion poblogaeth a nifer y teuluoedd yng Ngogledd Cymru, yn 2000 comisynwyd ymgynghorwyr gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru i ddarparu rhagamcanion poblogaeth. Pwrpas yr ymarferiad yw cynorthwyo cynllunio strategol a lleol a chynllunio mewnol y gwasanaeth. Yn benodol, bydd o gymorth i:

- darparu canllaw strategol ar draws Gogledd Cymru;
- ffurfio polisïau tai'r Cynlluniau Datblygu Unedol;
- asesu rhagamcanion Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- rhoi arweiniad i ddarparwyr gwasanaethau eraill, yn arbennig o fewn y sector cyhoeddus, ond hefyd yn y sector preifat.

2. Data sydd ar gael ar hyn o bryd

2.1 Yr unig feincnod swyddogol y gall awdurdodau ei ddefnyddio ar hyn o bryd i asesu eu darpar bolisïau yw set o ragamcanion y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Awdurdodau Unedol a seiliwyd ar dueddiadau 1991-94.

2.2 Darparodd yr ymgynhorwyr ragolygon mwy diweddar ar gyfer chwech Awdurdod Unedol Gogledd Cymru, gan roi elfen o gysondeb, annibyniaeth ac awdurdod barn.

3. Y fethodoleg, y dewisiadau posibl a'r hoff ddewis

3.1 Mae'r amrediad o fodelau a ddewiswyd wedi cael eu defnyddio a'u datblygu'n rheolaidd dros y chwarter canrif a aeth heibio. Mae'n fodel aml-ardal, yn ymgorffori llifiadau mudo rhwng yr holl ardaloedd a gynhwyswyd, a mudo mewn ac allan mewn perthynas â hyd at 4 ardal allanol. Cyfyngwyd ymfudedd yr ardal mewn modd a fyddai'n efelychu dull gweithredu'r Cynulliad Cenedlaethol "o'r pen uchaf i lawr".

3.2 Profwyd deg senario ar sail gwahanol ragdybiaethau ynglyn â thueddiadau diweddar mewn ymfudo, natur teuluoedd a'r rhaglen adeiladu tai. Cyflwynwyd manylion y prosiect i grwp o arbenigwyr trin gwybodaeth a swyddogion cynllunio. Cafwyd trafodaeth hir i benderfyny pa ragamcanion a ddylai fod yn sail i'r canllaw strategol cytun. Yn anochel, roedd rhai awdurdodau'n ffafrio'r rhagamcanion oedd yn gweddu orau i'w bwriadau polisi. Trafodwyd hefyd y dadleuon o blaid ac yn erbyn cytuno i amrediad o ffigyrau yn hytrach nag un ffigwr sengl.

3.3 Cytunodd y grwp mai Rhagamcan P2aV1, sef y dewis a argymhellwyd gan yr ymgynghorwyr, y dylid ei fabwysiadu fel meincnod gan yr awdurdodau a noddodd yr ymchwil. Dyma'r dewis mwyaf dibynadwy yn ystadegol a'r un sy'n adlewyrchu agosaf yr hyn y gellid bod wedi ei gynhyrchu mewn cyhoeddiad Cynulliad Cenedlaethol. Ar gyfer teuluoedd defnyddiodd y data diweddaraf a oedd yn gweddu orau a chyda'r angen lleiaf i'w addasui gynhyrchu deilliannau a cydnaws â thueddiadau hysbys o'r flwyddyn sylfaen gychwynnol.

4. Canlyniadau Gogledd Cymru

4.1 Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau'r hoff ddewis ar gyfer poblogaeth a nifer y teuluoedd ym mhob rhan o Ogledd Cymru. Disgwylir y newid mwyaf yng Nghonwy, ac yna Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Mae poblogaeth Sir Fôn yn debygol o barhau i ostwng fel ag a wnaeth yn ystod blynyddoedd diweddar.

Poblogaeth	Môn	Gwynedd	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam
1996	67,056	117,795	110,595	90,408	144,918	125,110
2001	64,772	118,234	113,878	92,021	148,133	125,536
2006	63,103	119,579	116,589	94,166	149,885	125,948
2011	61,787	120,737	119,155	96,119	151,275	126,308
2016	60,876	121,806	121,749	97,890	152,347	126,745

Teuluoedd	Môn	Gwynedd	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam
1996	27,801	49,632	47,652	38,851	56,878	50,876
2001	27,677	50,836	49,513	40,122	60,072	52,878
2006	27,713	52,541	51,487	41,702	62,536	54,540
2011	27,678	53,833	53,393	43,213	64,527	56,319
2016	27,780	55,252	55,567	44,857	66,442	57,459

5. Defnyddio'r ffigyrau

5.1 Cytunodd awdurdodau lleol Gogledd Cymru i ddefnyddio'r ffigyrau yn rhagamcan P2aV1 ac fel meincnod i awdurdodau unigol asesu eu rhagolygon seiliedig ar eu polisïau eu hunain ac wrth baratoi Canllaw Cynllunio Strategol ar gyfer Gogledd Cymru. Nid ydynt yn ffigyrau polisi yn eu hunain, yn hytrach, maen't yn dafluddion sydd wedi seilio ar dueddiadau. Efallai hefyd y dymuna rhai awdurdodau lleo eu defnyddio fel arweiniad i gynllunio strategol o fewn eu hadrannau gwasanaeth.